# Cyngor Cymuned Llanycil

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Mehefin 10fed 2025 am 8.00 o'r gloch yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Rhys Richards (cadeirydd), Huw Charles, Geraint Jones, Euros Puw, Arwel Davies, Huw Edwards a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gwynfryn Williams a'r Cyng.Elwyn Edwards

**i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Mai a chafwyd yn gywir.**

**ii) Datgan Buddiant.**
Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

**iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.**

a) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf -
i) Roedd y gwaith trwsio o gwmpas y grid gwartheg ar yr B4391, ger Tai Hirion, Arenig wedi cael ei drefnu gyda'r gweithlu.
ii) Roedd llythyr wedi mynd i berchnogion Bryn Tirion, Maesywaen ynglyn â'r goeden sy'n gwyro i'r ffordd.
iii) Cafwyd ein cynghori mae 'Adra' oedd yn gyfrifol am dorri'r glaswellt yng nghanol pentref Rhyduchaf.

**iv) Gohebiaeth.**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Cyngor Gwynedd.
i) Clybiau Ieuenctid Cymunedol.
ii) Cronfa 'Gwynedd Ni' i Gynghorau Tref/Cymuned – trafodwyd nifer o syniadau ar gyfer gwneud cais am yr arian oedd ar gael. Gofynnwyd i'r clerc ymgynghori a swyddogion y gronfa a phwyllgorau'r neuaddau i weld pa adnoddau fyddai'n posib ymgeisio am ac yna i gyflwyno'r cais.

b) Parc Cenedlaethol Eryri.
i) Cronfa Cymunedau Eryri.
ii) Cynllun Datblygu Lleol Eryri Newydd (2026-2041)

c) Amrywiol.
i) Clwb Criced Y Bala – cais am gymorth i gynnal y clwb.
ii) Tesco Stronger Starts – gwybodaeth am grant sydd ar gael.

**v) Ceisiadau Cynllunio.**
Ni chyflwynwyd unrhyw geisiadau i'w trafod.

**vi) Materion Ariannol**
a) Archwiliad Mewnol a'r Ffurflen Flynyddol.
Roedd Cyngor Gwynedd wedi archwilio'r cyfrifon a chafwyd cadarnhad i sicrwydd yn nhrefniadau llywodraethu a datganiadau cyfrifyddu'r Cyngor. Cytunwyd yn unol â gofynion y datganiadau Cyfrifyddu a Llywodraethu yn y ffurflen Archwiliad Blynyddol. Adroddodd y Clerc y byddai'n nawr yn anfon yr holl ddogfennau roedd Swyddfa Archwilio Cymru eu hangen ar gyfer yr archwiliad allannol. Cytunwyd i arddangos yr hysbysiad archwilio yn y mannau perthnasol.

**vii) Unrhyw Fater Arall.**

a) Gofynnwyd i'r clerc basio'r materion canlynol ymlaen:-
i) Coeden angen ei thorri lawr wrth y gamfa gyferbyn a Rhydyfen, Arenig.
ii) Tyllau yn y ffordd a culfet wedi disgyn ar y ffordd o Parc i Gastell Hen, Talybont, Parc.

**Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Medi 9fed am 8.00 y.h. yn Neuadd Maesywaen.**



Arwyddwyd: ……………………………………….. Dyddiad: ……………….